CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

## Adroddiadau Estyn Reports

## GWANWYN 2017 SPRING.

## Ysgol Gynradd Niwbwrch.

Mae'r ysgol yn darparu ystod o brofiadau dysgu priodol sy'n ennyn diddordeb llawer o ddisgyblion yn dda. Mae'r profiadau hyn yn bodloni gofynion y cwricwlwm cenedlaethol a maes llafur cytûn.

Mae'r ysgol yn darparu profiadau addas sy'n hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn effeithiol. Mae'r sesiynau addoli ar y cyd a'r cwricwlwm yn cefnogi hyn yn llwyddiannus.

Mae gan yr ysgol bartneriaethau priodol gyda'r gymuned leol. Mae disgyblion yn cymryd rhan mewn gwasanaethau amrywiol yn y capel a'r eglwys leol. Mae'r profiadau hyn yn hyrwyddo ymdeimlad disgyblion o falchder at eu hardal leol.

*The school provides a range of appropriate learning experiences that engage many pupils' interest well. These experiences meet the requirements of the National Curriculum and the agreed syllabus.*

*The school provides suitable experiences that promote pupils' spiritual, moral, social and cultural development effectively. Collective worship sessions and the curriculum support this successfully.*

*The school has appropriate partnerships with the local community. Pupils take part in various services in the local chapel and church. These experiences promote pupils' sense of pride towards their local area.*

## Ysgol David Hughes

### (Fframwaith newydd : *New Framework*)

Mae'r ysgol yn darparu rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol gynhwysfawr sydd wrth wraidd y cynlluniau pwrpasol ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Caiff y disgyblion gyfleoedd defnyddiol i ddylanwadu ar gynnwys y rhaglen er mwyn sicrhau ei bod yn ymateb i'w hanghenion. Er enghraifft, cynhaliwyd sesiynau buddiol yn ddiweddar yn ymdrin â rhagfarn hiliol cyn i ffoaduriaid o Syria symud i'r ardal i fyw.

*The school provides a comprehensive personal and social education programme that is at the heart of purposeful plans for pupils' spiritual, moral, social and cultural development. Pupils are given useful opportunities to influence the programme's content in order to ensure that it responds to their needs. For example, beneficial sessions were held recently that addressed racial prejudice before refugees from Syria came to live in the area.*